PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 41 | Hydref 9, 2025 | 50c.



# Angor Grangetown

Pnawn Sul 28 Medi cafwyd oedfa yn y Bay Church, Grangetown i gomisiynu Gwilym Jeffs yn arweinydd Angor Grangetown, gan Angor / Ebeneser / Undeb yr Annibynwyr. Mae Gwil wedi ei ryddhau o'i swydd fel athro, am ddau ddiwrnod yr wythnos, er mwyn ehangu'r gwaith da mae Angor yn ei wneud yn ardal Grangetown.

Mor braf oedd gweld yr adeilad yn llawn dop o bobl a phlant o bob oed, a theimlo cynhesrwydd y croeso a'r bwrlwm. Braf iawn oedd gweld teuluoedd a phlant bach mor amlwg yn y gweithgareddau, a gwych hefyd gweld cynrychiolaeth gref o Ebeneser ac eglwysi eraill wedi ymuno i gefnogi Gwil a'r tîm yn eu gwaith.

Cafwyd oedfa hapus ac emosiynol wrth i ni weddïo am fendith Duw ar y gwaith. Darllenodd Cynan o lyfr Jeremeia 20:1-18, cyn i Alun bregethu ar yr adnodau. Soniodd Alun ei fod yn gobeithio na fydd Gwil a'r tîm yn teimlo'n unig. Fel roedd neges Duw yn llosgi ym mol Jeremeia, mae gennym ninnau hefyd neges i'w rhannu, sef gras, cariad a maddeuant. Holodd 'ydy'r neges yn ein tanio ni?' Os felly, bydd Duw yn ein defnyddio ni.







'Os dywedaf, "Ni soniaf amdano, ac ni lefaraf mwyach yn ei enw", y mae yn fy nghalon yn llosgi fel tân wedi ei gau o fewn fy esgyrn. Blinaf yn ymatal; yn wir, ni allaf.' (Jer 20:9)

Cafodd Gwil ei holi gan Cynan, a soniodd am ei daith ysbrydol at fod yn arweinydd Angor. Dywedodd mai arweinydd petrus oedd ond ei fod yn gweld llaw Duw ar ei waith a'i fywyd. Dangosodd y ddolen QR at y llythyr gweddi ar y sgrîn a gofynnodd i ni sôn am y gwaith. Pwysleisiodd bod croeso yn Angor i bawb sydd eisiau dod i adnabod Iesu Grist.


Y bwriad maes o law yw corffori Angor yn eglwys Annibynnol Gymraeg, ond mae'r weledigaeth yn ehangach na hynny sef y bydd rhagor o eglwysi newydd yn cael eu plannu dan fendith Duw gan ddod â bywyd newydd i'n cenedl.

Diolchwn i Dduw am ei law ar waith Angor a gweddïwn am fendith Duw ar y fenter i'r dyfodol.

**Janette Jones**

O.N. Hoffai eglwys Ebeneser/Angor, Caerdydd ddiolch o galon i Undeb yr Annibynwyr am eu cymorth ariannol tuag at y prosiect arloesol hwn trwy'r cynllun Arloesi a Buddsoddi. Hoffem annog eglwysi eraill i fentro mewn ffydd i'r dyfodol. Mae ffydd o reidrwydd yn golygu menter. Roedd hi'n hyfryd cael cwmni'r Ysgrifennydd Cyffredinol Elinor Wyn Reynolds, Llywydd yr Undeb y Parchg Owain Llŷr Evans a Chadeirydd y Cwrdd Chwarter Siân Meinir yn yr oedfa emosiynol a dyrchafol.

# C. H. Dodd – ychydig sylwadau




Da y gwnaeth trefnwyr yr Eisteddfod eleni sicrhau fod un o wŷr mawr Wrecsam, Charles Harold Dodd (1884 - 1973) yn cael ei gofio. Gwahoddwyd un o'n hysgolheigion pennaf ym maes y Testament Newydd i draddodi darlith am ei gyfraniad rhyfeddol o gyfoethog i ysgolheictod yn y maes hwn. Er na chlywais ddarlith yr Athro Eryl Wyn Davies, gwerthfawrogol, fel y gellid disgwyl, oedd yr ymateb.

### Doyen

I danlinellu pwysigrwydd Dodd i'n dealltwriaeth o'r Testament Newydd cawn neb llai na'r cawr o ysgolhaig Beiblaidd F. F. Bruce yn tafoli ei gyfraniad drwy gyfeirio ato fel 'doyen' ysgolheigion Prydeinig y Testament Newydd. Clod yn wir: y dihefelydd Dodd. Gwerth nodi'n ogystal fod Dodd, yn ôl Bruce, yn wahanol i'w gyfoedion cyfandirol, yn rhoi cryn bwyslais ar werth hanesyddol yr Efengylau, hynny yw, eu bod wedi eu gwreiddio fel petai, yn naear go iawn gweinidogaeth Iesu ei hun, yn hytrach nac yn adlewyrchu sefyllfa yr Eglwys Fore (Bultmann ac eraill, hefyd Pennar Davies gydag ambell wyriad).

Fel awdur bu Dodd yn hynod gynhyrchiol o'r dauddegau hyd ddechrau'r saithdegau. Cyhoeddodd astudiaethau, rai ohonynt yn arloesol, yn ymwneud ag agweddau canolog y Testament Newydd. Yn y gyfrol ar y damhegion, er enghraifft, bathodd yr ymadrodd, 'realised eschatology' – eschatoleg gyflawnedig – i fynegi byrdwn dysgeidiaeth Iesu am Deyrnas Nefoedd. Honiad Dodd yw bod y Deyrnas wedi dod yn Iesu, nid fel blaenffrwyth y cyflawniad oedd eto i ddod, ond fel y cyflawniad ei hun.

### Arloesol

Arloesol yn ogystal, oedd ei ymdriniaeth o'r pregethu Apostolaidd – y *kerygma* fel y'i gelwir. Dadansoddodd yn feistraidd y themâu cyson hynny oedd yn nodweddu'r pregethu, a datgelu yr un pryd bod ynddynt gytundeb rhwng ffaith a dehongliad. Mewn geiriau syml yr oedd unoliaeth ynglŷn ag arwyddocâd gwaredigol bywyd a marwolaeth Iesu yn y pregethu Apostolaidd. Cafodd ymdriniaeth Dodd o air Groeg yn y Testament Newydd, *hilascomai* a'r cytrasau (Rhuf. 3:25) dderbyniad gwresog gan lawer o ysgolheigion. Craidd dadl Dodd yw y dylid deall y gair nid yn ôl ei ystyr yng nghyd-destun llenyddiaeth baganaidd y cyfnod, gyda'r pwyslais ar ddyhuddiant, sef tawelu digofaint, ond ar ystyr y gair yn yr LXX, y cyfieithiad Groeg o'r Hen Destament, gan mai hwn oedd y Beibl a ddefnyddid gan awduron y Testament Newydd. Nid dyhuddiant fel y cyfryw yw ystyr amlycaf y gair yn yr LXX ond puro, glanhau a maddau pechod. I lawer, yn gam neu'n gymwys, roedd y dehongliad hwn yn fodd i gladdu'r syniad cyntefig o Dduw fel teyrn mympwyol ei dymer a fyn yn gyntaf weld gwaed cyn cynnig maddeuant. (Harnack sy' piau'r sylw.) Canfyddir dylanwad y dehongliad hwn ar nifer o gyfieithiadau modern o'r Beibl, yn eu plith yr RSV a'r NEB a hefyd Y Beibl Cymraeg Newydd 1988 – 'moddion ein puredigaeth.'

### Celfyddyd amhosib

A ninnau newydd sôn am yr NEB, bu gan Dodd ran allweddol yn y cyfieithiad hwnnw. Ef oedd, ymhlith ei gyfrifoldebau eraill yn y fenter, gynullydd Panel Cyfieithu'r Testament Newydd. A'r gwaith bron â'i gwblhau gofynnwyd iddo lunio rhagair i'r cyfieithiad. Wrth drafod y drafft mynegodd aelodau'r Pwyllgor Gweinyddol anniddigrwydd ynglŷn ag un frawddeg. Yn y paragraff clo ysgrifennodd Dodd fel hyn: 'translating is an impossible art.' Ar ôl gwrando'n amyneddgar ar leisiau anghymeradwyol y dysgedigion, holodd Dodd farn yr unig Gymro arall oedd yn bresennol sef W. D. Davies (Prifysgol Duke UDA wedi hynny). Ac yntau'n ddwyieithog, fel Dodd ei hun, cytunodd Wiliam Defi yn galonnog â'r geiriad.

Cyhoeddwyd y cyfieithiad o'r Testament Newydd yn 1961. Gwêl y neb a ddarlleno'r rhagair mai'r gair tramgwyddus a orfu – celfyddyd amhosib yw celfyddyd cyfieithu. 'A ddarlleno, ystyried' medde'r hen air.

(Yn y gyfrol *Christian Engagement With Judaism* gan W. D. Davies y cefais yr hanesyn hunangofiannol hwn. Brodor o Lanaman oedd yr ysgolhaig mawr yr Athro W. D. Davies a Bryn Seion, Capel yr Annibynwyr, oedd cartref ysbrydol y teulu.)

**Gwyndaf Jones**

O.N. Dylwn fod wedi nodi i C. H. Dodd fod yn weinidog mewn eglwys gynulleidfaol cyn troi i'r byd academaidd.

*(Doyen yw y person mwyaf ei barch mewn maes penodol. Ystyr cytrasau yw o'r un teulu. Gol.)*

## Gweddi dros yr eglwys: ar ddechrau tymor newydd



Molwn dy enw, O Dduw,
am i ti weithredu drwy dy Eglwys
a thrwy gymdeithas dy bobl ym mhob oes a chenhedlaeth.

Diolchwn i ti am ein galw ninnau i fod yn ddilynwyr i Iesu Grist, yn un gymuned ysbrydol, yn Gorff Crist ac yn deulu'r ffydd.

Diolchwn am bopeth a gyflawnaist drwy dy Eglwys
ac am y grasusau a'r gwirioneddau a ddaeth i bobl drwyddi.

Diolchwn am y rhai ym mhob cyfnod o'i hanes
a weithiodd drwyddi i dystio i'r gwirionedd
ac i estyn y deyrnas:
apostolion a merthyron,
saint a diwygwyr,
cenhadon ac athrawon.

Diolchwn am ddylanwad dy Eglwys arnom:
Am y rhai a fu'n esiampl inni,
A'n harweiniodd i werthfawrogi awyrgylch dy dŷ
a'n harweiniodd i adnabod dy gariad yn Iesu Grist.

Yng ngrym dy Ysbryd Glân
ymwêl â'th Eglwys
a gwna hi'n gymdeithas gref,
yn dyst ffyddlon ac yn deulu Duw,
a phâr i ninnau dy wasanaethu drwyddi ddyddiau ein hoes.
Yn enw Iesu. Amen.

**Elfed ap Nefydd Roberts**

Yr Adran Gydenwadol

HYDREF 9 2025 RHIF 241

## Pennod newydd i adferiad yng Nghymru

Mae'r Stafell Fyw (the Living Room), cymuned adfer arloesol, yn falch o gyhoeddi ei lansiad swyddogol dan ofal ei mam elusen, y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Cynhelir y digwyddiad ddydd Sul, 26 Hydref, am 2:00yp yn Eglwys y Crwys, 77 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AR, gan nodi carreg filltir bwysig i'r mudiad adferiad yng Nghymru.

Bydd y lansiad yn dod â phobl, teuluoedd a chymunedau ynghyd i ddathlu adferiad, gwydnwch a dechreuadau newydd. Bydd gwesteion yn cael eu hysbrydoli gan straeon pobl sydd wedi trawsnewid eu bywydau, ac yn cael clywed am gynlluniau cyffrous yr elusen ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn y gwasanaeth, cynhelir te parti dathlu am 3:00yp.

Bydd y diwrnod yn dod i ben gyda Chymanfa Ganu fawreddog yn y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, yn dechrau am 8:00yh, lle bydd lleisiau'n uno mewn cân i nodi gobaith, iachâd ac ysbryd cymunedol.

Mae'r lansiad hefyd yn cyd-fynd â 14eg Sul Adferiad Cymru, diwrnod cenedlaethol sy'n cydnabod, mewn sawl ffordd, fod pawb yn adfer o rywbeth neu'i gilydd. Dywedodd Wynford Ellis Owen, sylfaenydd y Stafell Fyw a phrif weithredwr y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, "Mae'r Stafell Fyw wastad wedi bod yn fwy na phrosiect – mae'n deulu, yn lle i berthyn, ac yn symbol o obaith. Wrth i ni ailymuno â'n mam elusen, rydym yn benderfynol o barhau â'n cenhadaeth: creu lle diogel a chroesawgar lle gall bywydau gael eu trawsnewid."

Ers bron i bymtheg mlynedd, mae'r Stafell Fyw wedi bod wrth wraidd y mudiad adferiad yng Nghymru, gan gynnig gobaith a bywyd newydd trwy dosturi, cymuned a grymuso i bobl sy'n byw gyda dibyniaeth, eu teuluoedd a'u cefnogwyr.

CARE | Y CYNGOR AR ALCOHOL A CHYFFURIAU ERAILL, ELUSEN AR GYFER DIBYNIAETH, ADFERIAD A GALLUOGI | THE COUNCIL ON ALCOHOL AND OTHER DRUGS, THE CHARITY FOR ADDICTION, RECOVERY AND EMPOWERMENT

recovery-council.org
living-room.uk
cynnal.uk



# CYMANFA GANU FAWREDDOG

**YNG NGHAPEL Y TABERNACL**
**YR AIS CAERDYDD**
**AM 8yh AR NOS SUL 26ain o HYDREF**

i ddathlu agoriad swyddogol y

STAFELL FYW LIVING ROOM | cynnal | LLE I FYW A ROOM TO LIVE

yn eu cartref newydd yn Eglwys y Crwys, 77 Richmond Road, Caerdydd
ac o dan warchogaeth newydd
**Y CYNGOR AR ALCOHOL A CHYFFURIAU ERAILL**

**ARWEINYDD: Eilir Owen Griffiths**
**ORGANYDD: David Geoffrey Thomas**
**Côr Eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-garth**
**a**
**Côr Ifor Bach**

### Manylion y digwyddiad:

- Lansiad Swyddogol: Dydd Sul, 26 Hydref, 2:00yp, Eglwys y Crwys, Caerdydd
- Te Parti Dathlu: 3:00yp
- Cymanfa Ganu: 8:00yh, Tabernacl, Caerdydd

Am ymholiadau'r wasg, cysylltwch â: Wynford Ellis Owen ar wynford@recover-council.org neu 07796464045:

Gwefannau: www.stafell-fyw.uk | www.cyngor-adferiad.org | www.cynnal.uk

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 12 Hydref, am 7.30yh**
Bydd Lowri Morgan ar daith i ddysgu mwy am gelfyddyd a hanes ein ffenestri lliw. Ceir perfformiad gan y tenor Osian Wyn Bowen.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 12 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Noa Evans

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 12 Hydref, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Aled Jones, NFU, Caernarfon

# ‘Ni sy’n mynd i ennill’ – Souled Out ’25 yn y Bala



Braf oedd cael dod at ein gilydd eto ganol Awst, yn wynebau hen a newydd, i addoli, dysgu a mwynhau. Eleni, roedd cyfle hefyd i ddiolch yn arbennig i’r Arglwydd am ei ffyddlondeb dros 25 mlynedd o waith Souled Out yn ei ffurf bresenol yng Ngholeg y Bala, ymhlith ieuenctid hŷn ac oedolion ifanc.



Un o uchafbwyntiau Souled Out eleni oedd clywed pobl ifanc yn tystio i waith a daioni Duw yn eu bywydau. Mewn cyfweliad gyda Carys, dyma Mia yn rhannu sut y daeth hi i adnabod Iesu’n bersonol a’r gwahaniaeth mae hyn wedi’i wneud yn ei bywyd.



Dyma Gareth yn arwain cyfnod o fawl ar ddechrau’r diwrnod, gyda help Delyth, Jo ac eraill yn y band.



Ar noson gyntaf Souled Out, fe wnaeth Joseff Edwards, un o’r siaradwyr, gyflwyno thema’r wythnos – ‘Ni sy’n mynd i ennill!’ – gan ddechrau’r siwrne drwy’r bennod arbennig y byddem yn edrych arni gyda’n gilydd yn ystod yr wythnos, sef Rhufeiniaid 8.

**Diolch i Emily Cooke am yr adroddiad yma o’i hamser ar y cwrs**

Fe wnes i fwynhau Souled Out yn fawr eleni: y croeso cynnes, ailgysylltu â hen ffrindiau a gwneud rhai newydd.

Thema’r wythnos oedd ‘Ni sy’n mynd i ennill’ ac fe wnes i wir fwynhau dysgu mwy am fy ffydd wrth gael ein harwain drwy Rhufeiniaid 8 yn ystod y sesiynau. Dyma’r bennod sy’n sôn wrthym am y bywyd sydd i’w gael yn yr Ysbryd, am y gogoniant sydd i ddod ac am fawredd cariad Duw tuag atom yn Iesu Grist. Mi fyddaf i bob amser wrth fy modd yn ein trafodaethau grŵp bach hefyd. (Beth am ddarllen y bennod eich hun a dychmygu hanner cant o bobl ifanc yn mynd drwyddi ac yn ei thrafod efo’i gilydd!)

Uchafbwynt yr wythnos i mi oedd clywed Cath Woolridge yn siarad un noson. Roedd ei sesiwn yn ysbrydoledig oherwydd y ffordd y cyflwynodd y neges gyda chymaint o dân ac angerdd. Roeddwn i hefyd wrth fy modd yn treulio amser gyda ffrindiau a chael hwyl gyda nhw drwy gydol yr wythnos!



‘Roedd yn wych cael hwyl gyda ffrindiau gydol yr wythnos. Dyma rai o’r ieuenctid yn chwarae gemau yn yr haul!’

Byddwn i’n bendant yn argymell mynd i Souled Out lle bynnag ydych chi ar eich siwrne ffydd. Ac yn bersonol, alla i ddim aros i weld pawb eto yn Aduniad Souled Out ym mis Chwefror!

**Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma gydag ieuenctid hŷn ac oedolion ifanc, cysylltwch â Meryl Walters yng Ngholeg y Bala am sgwrs ar 01678 520565 neu e-bostiwch info@souledoutcymru.net**

# Credo Nicea – Sesiwn Chwech – Gobaith yr Atgyfodiad (rhan 2)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

## Prydain ac Iwerddon

Dyma'n union yw dyfodol Duw: mae am ailgyfeirio ein stori Gristnogol. Mae'n terfynu gyda gweledigaeth Ioan ar Ynys Patmos, sy'n disgrifio dynolryw wedi ymgasglu mewn addoliad gerbron Duw y tu hwnt i hunaniaethau diwylliannol, ieithyddol, ethnig a llwythol arbennig (Datguddiad 7:9).

Cyfeiria Martin Luther King at y gymdeithas hon o bobl annhebyg i'w gilydd fel y Gymuned Annwyl. Cymuned fyd-eang ydyw sydd wedi ei gwreiddio yn egwyddor Gristnogol cariad, ac wedi ymrwymo i ryddhau'r gorthrymedig trwy feithrin cymdeithas sy'n rhydd o ragfarn a gorthrwm hiliol. Nid cydraddoldeb ***cyfreithiol*** yn unig oedd craidd y weledigaeth hon ond yr alwad i drawsnewid ac alinio calonnau a meddyliau pobl i gofleidio a chydnabod urddas a gwerth hanfodol pob stori ddynol, ac i weld pob person fel un sy'n dwyn delw Duw ac yn deilwng o gariad, urddas a chyfiawnder.

Mae'r Gymuned Annwyl hon yn ategu ffydd yng ngrym trawsffurfiol yr atgyfodiad – metaffor o atgyfodiad o ludw anghyfiawnder i fywyd newydd o gydraddoldeb a chyfiawnder, ac sy'n agor y ffordd tuag at gymod, a ffyniant ein gilydd.

Mae cyfiawnder hiliol yn cynnig gobaith am gael gweld y dyfodol a fwriedir gan Dduw. Addewir dyfodol lle mae clwyfau'r gorffennol yn cael eu trin, a chymunedau'n cael eu cynnal mewn cariad a solidariaeth. Trwy ddatgymalu systemau gorthrwm a mynd i'r afael â gwreiddiau hiliaeth, rydym yn agor ffordd tuag at fyd lle mae cyfiawnder a thegwch yn drechaf. Yn union fel y bydd Cristnogion yn gweddïo am i deyrnas Dduw ddod 'ar y ddaear fel y mae yn y nefoedd', mae tystio dros gyfiawnder hiliol yn fynegiant diriaethol o'r weddi hon. Ymrwymiad ydyw i adeiladu byd sy'n adlewyrchu hanfod teyrnas Dduw – cymdeithas lle mae cariad, cyfiawnder a chydraddoldeb yn teyrnasu'n llwyr.

**Cwestiynau i fyfyrio arnynt**

1 O ystyried y darlleniad o'r Beibl a'r myfyrdod, beth ddaw i'ch meddwl chi pan glywch y term 'Y Gymuned Annwyl'?

2 Pa systemau gorthrymus y tybiwch chi sy'n bodoli yn yr Eglwys heddiw? Sut y dylen ni eu datgymalu?

3 Beth yw'ch gobaith am ddyfodol yr Eglwys?

**Gweddi**

Gariad ddaeth yn gnawd,
Ffynnon Trugaredd a Chyfiawnder
mewn byd sy'n anghyfartal ac mewn poen,
boed i'n gweithredoedd fod yn weddïau.
Ymbiliwn am Shalom, llawnder bywyd i bawb.

Boed i Ysbryd Gwirionedd ein tywys ni
ac Ysbryd Cariad ein rhyddhau ni.
Rho i ni dosturi a dewrder i'n gwneud yn benderfynol
o fod yn oleuadau.
Dymunwn am i bawb weld eu bywyd a'u hurddas yn cael eu hadfer.
Ysbrydola ni i fod yn ernes o fyd heb anghyfiawnder a rhagfarn.
Llunia ni'n sianelau dy gariad a'th dangnefedd.
Boed i afon cyfiawnder a thrugaredd lifo dros ein byd amherffaith,
gan dorri syched eneidiau a dyfrhau tiroedd crasboeth.
Triga ynom, O Ryddhawr, fel y gallwn fod yn lleisiau i'th Air,
er mwyn i'r byd gael Bywyd, Bywyd yn ei holl gyflawnder.
Amen.

Ysgrifennwyd y weddi gan y Gwir Barchedig Anderson Jeremiah

**Dyma'r olaf o'r astudiaethau ar Gredo Nicea. Yr wythnos nesaf byddwn yn dechrau ar y gyfres *Codi'r Llen*.**

# Cyflwyno Pedair Medal Gee ym Mhontrhydfendigaid

Ddydd Sul, 14 Medi, daeth cynulliad da ynghyd i gapel Rhydfendigaid ar gyfer gwasanaeth arbennig i gyflwyno pedair medal Gee i bedair athrawes ymroddedig a gweithgar, sef Jên Ebenezer, Neli Jones (sydd wedi treulio cyfnod o 70 mlynedd fel athrawes ysgol Sul ac yn dal ati hyd heddiw!), Ann Williams a Jean Williams. Cafwyd defosiwn arweiniol gan griw yr Ysgol Sul, gyda Manon Mai Rhys-Jones yn cyfeilio, ac wedi bod wrthi yn y dirgel yn trefnu'r cyfarfod arbennig hwn. Wedi gair gan Aled Davies ar ran y Cyngor Ysgolion Sul, cyflwynwyd y medalau i'r pedair ohonynt. Yn dilyn y cyfarfod cafwyd gwledd wedi ei pharatoi gan rieni a chyfeillion y capel yn neuadd y pentref. Diolch am wasanaeth arbennig y pedair ohonynt.





# WRTH Y LLYW #4

### Angorion

Ar dudalen gefn *Y Tyst* (38: Medi 18) ymhlith pethau eraill difyr a da, roedd dau hysbyseb: Oedfa Gomisiwn ein Hysgrifennydd Cyffredinol, Elinor yn Y Priordy, Caerfyrddin a Gwasanaeth Comisiynu Gwilym yn Arweinydd Tîm 'Angor' Grangetown yn *The Bay Church*, Corporation Road, Caerdydd. Fy mraint oedd cael mynychu'r naill a'r llall. Wnâi ddechrau gyda Gwasanaeth Comisiynu Gwilym yn arweinydd tîm 'Angor' Grangetown. Mae fy nechrau'n dechrau nid yn The Bay Church ond yn hytrach yng nghanol cylchfan ar ddiwedd Lawrenny Avenue, tafliad carreg o Ysgol Fitzalan. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, amddiffynnwyd Caerdydd gan falŵns wrthglawdd (barrage balloons) ac mae angor concrit ar gyfer un o'r balŵns hyn yn parhau i fod yn weladwy heddiw ar y gylchfan hon. Gellid gweld un arall yng Ngerddi'r Goron (Parc Cathays) ac un arall eto ym Mharc Splott. Telpyn mawr o goncrit yng nghanol cylchfan: angor. Mae 'Angor' yn enw da ar eglwys leol: mae 'Angor' Grangetown yn angor 'ar derfysglyd fôr' i Gymry Grangetown, ac mae Efengyl Iesu (angorwn ein ffydd wrthi. Y mae hi wedi dod yn bryd inni ailafael yn y pwysau hwn!) yn angor i'r tîm y mae Gwilym bellach yn arwain. Tîm? Arwyddocaol yw'r ffaith i Iesu anfon ei ddisgyblion allan ar eu cenhadaeth gyntaf bob yn ddau a dau. Roedd rhaid i'r ddau ohonynt ddysgu byw gyda'i gilydd – cydweithio a chyd-dynnu fel tîm – yn bwysicach yng ngolwg Iesu na dyblu sgôp y gwaith a'u hanfon allan bob un ac un. Heb fod yr eglwys leol yn dîm mae gair mawr y Testament Newydd 'Cariad' yn gwbl ddiystyr. Wrth ystyried 'Angor' ac ymuno yn nathliadau pnawn Sul 28ain, cefais fy atgoffa o eiriau Henry





Ford: 'Coming together is a beginning; keeping together is progress; working together is success'. Rysáit eglwys dda? Dymuniadau gorau i Gwilym a'i dîm; boed wenau Duw ar 'Angor' Grangetown a phawb sydd ynghlwm wrthi.

### Pontydd

Ymlaen i Oedfa Gomisiwn Elinor. Fy mraint oedd llywyddu'r Oedfa arbennig hon. Gydag ethol Elinor ym mis Mai, egyr pennod newydd yn ein stori enwadol; boed bendith ar, ac oherwydd y bennod a'r penodiad newydd hwn. Dw i'n dyblu'r 'newydd' yn fwriadol: rhywbeth deinamig newydd (treblu!) a chreadigol ffres yw ffydd yn Nuw, ac felly hefyd yn naturiol ddigon y mynegiant Cynulleidfaol o'r ffydd honno. Gwaith pobl ffydd yw bod yn arbrofol fentrus, yn chwyldroadol greadigol i godi pontydd rhwng ein daliadau crefyddol a'r angen sydd o'n cwmpas ni, pontydd rhwng egwyddorion y ffydd a'r sefyllfa fel y mae. Dyma'r gwaith sydd o'n blaenau fel eglwysi lleol, a'r Ysgrifennydd Cyffredinol newydd, staff Tŷ John Penri a'n holl beirianwaith enwadol yno i gynnal, annog a grymuso. Fel rhan o'i chyffes a thystiolaeth, meddai Elinor: 'Credaf yng ngweinidogaeth yr holl saint, ac mai ni yw'r saint'. Gwell cord na'r nodyn sengl. Drwy gydweddïo, cydweithio, cydweinidogaethu, mynegir, meithrinir, diogelir yr argyhoeddiad Cynulleidfaol.

### Gweithwyr

Felly, Oedfa Gomisiwn a Gwasanaeth Comisiynu: mae cysylltiadau milwrol â'r gair 'Comisiwn/comisiynu'. Daeth Jeremeia at ei Dduw, wedi ymlâdd. Ei ymdrechion i gyd yn ofer: blinder a rhwystredigaeth. Beth oedd gan Dduw i ddweud wrtho druan? Gair o gysur a chymorth? Na, dim byd o'r fath! Dyma ymateb Duw: 'Os ydy rhedeg ras gyda dynion yn dy flino di, sut wyt ti'n mynd i fedru cystadlu gyda cheffylau'? (Jeremeia 12:5). Ydy'r sefyllfa'n anodd? Ydy. Beth a gynigir i ni gan Dduw? Cysur? Clustog? Na; cynigir her. Achos. Anturiaeth – **Comisiwn**. Ym myd y lluoedd arfog mae *Commissioned Officers* and *Non Commissioned Officers*. Ystyriwch y naill a'r llall trwy sbectol 'fel na byddo mwyach na dial na phoen/na chariad at ryfel, ond rhyfel yr Oen' (Eifion Wyn, 1867-1926) os gwelwch yn dda. Mae'r *Comissioned Officer* wedi derbyn ei gomisiwn gan awdurdod uwch nag ef/hi. Dyma'n stori, Elinor, Gwilym, ti, fi, ni.

Cofiwn am gomisiwn Iesu  
cyn ei fyned at y Tad:  
'Ewch, pregethwch yr Efengyl,  
gwnewch ddisgyblion ymhob gwlad.'  
Deil yr Iesu eto i alw  
yn ein dyddiau ninnau nawr;  
ef sy'n codi ac yn anfon  
*gweithwyr i'w gynhaeaf mawr.*

(John Roberts, 1910-84)




## Eglwysi Alltwen a Soar Maesyrhaf

Gwahoddir chwi gan yr Eglwysi uchod i ddathlu 60 mlynedd ordeinio y Parchg Gareth Morgan Jones i'r weinidogaeth.

Pregethir gan y Parchg Owain Llŷr Evans, Llywydd yr Undeb

**Dydd Sul 12 Hydref yn yr Alltwen am 2.30pm.**

# Barn Annibynnol

## ‘Agor gardd y grug a’i had’

Trafodaeth sy’n codi’n amlach y dyddiau hyn ymhlith yr enwadau yw’r defnydd a wnawn o’n hadeiladau. Ydi hi’n synhwyrol eu gadael i sefyll yn wag drwy’r wythnos a’u defnyddio ar y Sul yn unig? Yr ateb gan fwyfwy o bobol erbyn hyn yw Na! Mae nifer gynyddol o eglwysi’n chwilio am ffyrdd i agor yr adeiladau i’r gymuned. Dyna un dull pwysig i wneud yr Eglwys yn berthnasol i’r gymdeithas o’n hamgylch. Ond yn ogystal â’r adeiladau mae gan lawer o’n capeli ychydig o dir o’u cwmpas. Tybed a oes modd manteisio ar y tir hefyd i gysylltu’n nes â’n cymunedau?

### Pendroni

Dyna’r cwestiwn y buon ni acw yng Nghapel y Nant, Clydach, yn ei drafod ers cetyn. Drws nesa i’r capel saif yr hen festri a drowyd yn neuadd gymunedol ddeng mlynedd yn ôl. Ond o flaen y neuadd gorweddai patsien go helaeth o laswellt. Fe fu syniad flynyddoedd yn ôl i daenu concrid dros y borfa hon a’i throi’n faes parcio i’r aelodau, ond penderfynwyd chwilio am gynllun mwy cyfeillgar i’r amgylchedd na hynny. Erbyn heddiw mae tri o bob pedwar o bobol Ewrop yn byw mewn ardaloedd trefol, ynghanol concrid, sŵn a llygredd awyr. Erbyn 2050 bydd 68% o boblogaeth y byd yn byw mewn trefi a dinasoedd. Daw canlyniadau andwyol hyn, o ran iechyd meddwl a chorff, yn amlycach o hyd. Dywed yr arbenigwyr y dylai pawb gael byw o fewn chwarter awr i fyd natur lle gallwn leihau pwysau’r byw trefol hwn.

### Eglwys Werdd

Mae gan Gapel y Nant statws Eglwys Werdd eisoes. Ar hyn o bryd ry’n ni’n cydweithio gyda mudiad EGIN er mwyn lleihau ein hôl troed carbon a gwneud yr adeiladau’n llai niweidiol i’r amgylchedd. Felly, ffrwyth ein trafodaeth ehangach yn yr eglwys oedd y penderfyniad i gymryd rhan o’r borfa wrth y Neuadd i greu gardd yno. Nid gardd lysiau, rhaid cyfadde’, ond lle gwyrdd lle gallai pobol ymlacio wrth werthfawrogi lliwiau a thyfiant amrywiaeth o blanhigion.

### Cymunedol

Ond nid gardd i aelodau’r eglwys yn unig fyddai hon, ond lle cymunedol lle gallai’n cymdogion a’n cyfeillion droi i mewn i fwynhau orig o heddwch hefyd. Rydyn ni’n ceisio ffurfio cyswllt â’r gymuned yn barod trwy gynnal dydd agored blynyddol, ond bydd yr ardd newydd yn ategu at y cyswllt hwn. Ar ôl ymgynghori’n anffurfiol gyda thrigolion y stryd, bwriwyd ymlaen â’r cynllun. Gwnaed cais i’r Undeb am grant o dan ei gynllun Arloesi a Buddsoddi. Cawsom beth arian hefyd trwy rodd hael gan gynghorydd lleol o’i lwfans personol. Gyda chymorth y rhain a pheth o’n harian ein hunain rhoddwyd cytundeb i gwmni arbenigol i gynllunio’r ardd a chyflawni’r gwaith ymarferol. Dewiswyd y planhigion i sicrhau amrywiaeth o liw a llun yno. Daeth plant y capel i blannu hadau blodau haul, ac mae’r rhain bellach yn ymestyn fry i’r glesni uwchben!

Gosodwyd pedair mainc yn yr ardd. Roedd rhai aelodau yn awyddus i noddi mainc yr un er cof am anwyliaid a gollwyd yn ddiweddar, a bydd plac ar fur y neuadd yn rhoi enwau’r rhai a gollwyd ar gof a chadw.

### Dadlygru

Wrth gwrs, bydd ambell sinig yn holi pam mynd i’r fath drafferth! Gobeithio y daw’r bendithion yn amlwg i bawb. Mae’r planhigion mewn lle gwyrdd fel hwn yn amsugno mwy o garbon deuocsid o’r awyr na glaswellt. Yn denu peth bywyd gwyllt, pryfed, ac adar ar ôl y pryfed. Saif Capel y Nant yng nghanol rhwydwaith o strydoedd a ffyrdd tarmac ym mhentre’ Clydach, a bydd yr ardd yn cynnig dihangfa esmwyth i’r trigolion rhag caledwch yr amgylchfyd. Gall hyn leihau straen bywyd prysur a chryfhau ein hiechyd meddwl. Bydd yr awyr fan hyn yn lanach i’w hanadlu. Ac mewn oes lle mae gofyn talu am bopeth llesol, bydd rhyddhad bod yr ardd ar gael yn rhad ac am ddim!

Felly, fydd dim angen teithio’n bell i Versailles neu Keukenhof i fwynhau prydferthwch a llonyddwch natur. Anelwch am bentre’ Clydach – neu crëwch eich gardd eich hun! A daw’r byd a’r betws yn nes at ei gilydd yno.

**Robat Powell**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na’r tîm golygyddol.)





*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dathlu deucanmlwyddiant yn Llanfair Clydogau, Ceredigion



Ddydd Sul, 14 Medi, cynhaliwyd Cymanfa Ganu arbennig i ddathlu deucanmlwyddiant Capel Mair, Llanfair Clydogau, ger Llanbedr pont Steffan. Adeiladwyd y capel cyntaf ar lan yr afon Teifi yn 1825, ond yn fuan cynyddodd y gynulleidfa gymaint nes i'r capel hwnnw fynd yn rhy fach ac adeiladwyd y capel presennol sy'n ddwywaith maint y cyntaf.

Agorwyd y Gymanfa ar brynhawn gwlyb ofnadwy gyda Deina Hockenhull yn estyn croeso i bawb. Ar ôl canu'r emyn cyntaf cymerwyd y rhannau arweiniol gan Mared Jones, Llanfair Fach a Sara Davies, Nantymedd. Côr Cwmann oedd y côr gwadd gyda Sharon Dafis, ei arweinydd, yn arwain y Gymanfa ac Elonwy Pugh- Huysmans yn cyfeilio. Dewiswyd saith emyn cyfarwydd ac addas i'r dathlu i'w canu a rhwng yr emynau cawsom dair cân gan y côr. Yr unawdwyr oedd dau o aelodau'r côr, sef, Bob Brown, yn canu darn allan o'r oratorio *Elias*, a Kees Huysmans yn ein swyno gan ganu 'Y Nefoedd.' Diolch i'r ddau ohonynt.





Roedd y Capel wedi ei addurno â blodau prydferth a baner arbennig o lun y capel wedi ei chreu mewn defnydd a brodwaith gan law gelfydd y diweddar Iris Quan, Blaencwm. Roedd Capel Mair wedi bod yn bwysig iddi drwy ei hoes.

Roedd yn bleser hefyd i gael cwmni Ian Evans, Esgairmaen gynt, (fu'n drysorydd Capel Mair am 47 mlynedd), gan ei fod newydd gael triniaeth ar ei lygaid. Oherwydd hynny fe ddarllenwyd ei gyfarchion i'n llywydd, y Parchg Noel Anthony Davies o Abertawe, gan Elliw, ei nith, sydd yn ddeg oed a phleser oedd cael gwrando arni.

Balch iawn oeddem fod Noel wedi derbyn y gwahoddiad i fod yn llywydd y dydd gan mai ei dad, y Parchg Anthony Davies oedd ein gweinidog o 1948 i 1957, a threuliodd Noel rhan fawr o'i blentyndod yn Llanfair a Chellan, lle roedd y teulu'n byw yn Aneddfa, Y Mans yng Nghellan. Yn ei araith soniodd am ei atgofion yma cyn symud yn ei arddegau i Pontycymer. Soniodd am ei bleser o weld cymaint, yn hen ac ifanc, gan gynnwys rhai fu'n ffrindiau chwarae, wedi dod ynghyd i ddathlu, a'i obaith y byddai'r genhedlaeth nesa yn cynnal tystiolaeth Capel Mair i'r dyfodol: 'Tra'n llawenhau yn y dystiolaeth Gristnogol drwy Gapel Mair dros ddwy ganrif, mae angen i bawb ddal i gynnal y dystiolaeth mewn dyddiau pan mae grymoedd peryglus ar waith yn ein gwlad ac ar draws y byd. Mae angen gwerthoedd y Deyrnas arnom gymaint ag erioed.'

Gwahoddwyd pawb draw i neuadd y pentre i gael te. Roedd y neuadd wedi ei haddurno'n hyfryd a lluniaeth danteithiol wedi ei osod ar y byrddau gyda chwpanau te china'r capel, oedd yn rhodd gan Mary Jones, Y Pandy, yn 1926.

Diolch i bawb a fu'n rhan o'r paratoadau o flaen llaw ac ar y dydd.'

Addasiad o adroddiad a ymddangosodd yn *Clonc* Llanfair Clydogau, gan Aerwen Griffiths, Ysgrifennydd Capel Mair

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*